

CYNGOR BRO MACHNO

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 26ain o Dachwedd 2020 yn Neuadd Ty'n-y-porth am 7.30

Presennol: Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Eryl Owain, Eluned McFadden, Geraint Thomas ac Eifion Davies. Derbyniwyd ymddiheuriad gan y cler, Elfed Williams.

Cofnodion: Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 7 Medi 2020 fel rhai cywir, Eluned McFadden yn cynnig a Geraint Thomas yn eilio.

Materion yn codi:

Toiledau: Cafwyd wybod fod y bil trydan am y chwarter diwethaf dros £66 ond mai dim ond 66c oedd am y trydan a ddefnyddiwyd. Nid oedd y cler wedi cael mwy o wybodaeth gan y Cyngor Sir am y paneli solar. Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Sir geisio cael y wybodaeth.

Cadarnhawyd bod trefniadau glanhau'r toiledau'n foddhaol. Addawodd Geraint Thomas edrych ar y broblem o ddŵr yn dod i mewn i'r storfa o dan y drws.

Materion ffyrdd: Adroddwyd fod rhai cerbydau wedi eu symud oddi ar ochrau'r ffordd yn Cwm, wedi derbyn rhybudd gan y Cyngor Sir ond bod rhai rhwystrau yn dal i achosi problemau, yn ogystal â cherbyd ar ochr y ffordd ym Mhenmachno. Penderfynwyd cysylltu eto â'r Cyngor Sir.

Maes parcio'r Machno: Nid oes ymateb wedi dod gan y Parc Cenedlaethol felly penderfynwyd tynnu sylw'r Cynghorydd Sir at hyn.

Swydd Clerc: Cadarnhawyd yr angen i geisio cael rhywun lleol i ymgymryd â'r swydd a gofynnwyd i bob aelod feddwl am rhywun addas.

Cwt Hers: Derbyniwyd un cais, gan Ymddiriedolwyr y Neuadd Goffa, gan y byddai angen lle i storio offer tra bydd gwaith addasu'r Hen Ysgol yn mynd rhagddo. Cynigiwyd rhent o £350 ganddynt ond penderfynwyd ei osod am rent symbolaidd o £1 y flwyddyn. Nodwyd yr angen i wirio hyn yn erbyn polisi yswiriant y Cyngor.

Tŷ Mawr Wybrnant: Derbyniwyd ateb gan Trystan Edwards ar ran yr Ymddiredolaeth yn datgan bod bwriad i ail-agor ond na fyddai hynny'n debygol o ddigwydd tan 2021. Dywedodd fod y drefn o gyflogi ceidwad parhaol yn rhy gostus ac y byddai angen meddwl am ffyrdd gwahanol o ddenu pobl yno. Penderfynwyd gadael y mater am y tro ond i fod yn barod i gyfrannu at y drafodaeth ar ddyfodol Tŷ Mawr pan fydd cyfle.

Ceisiadau am gymorth ariannol: Derbyniwyd tri chais a phenderfynwyd cyfrannu £350 tuag at y Neuadd Goffa a £150 tuag at Glwb Peldroed Machno. Gohiriwyd penderfyniad ar y trydydd cais, ar ran Clwb y Llan, i osod mainc ger stad Maes-y-Waen, nes cael mwy o wybodaeth.

Sgipiau Cymunedol: Cafwyd wybod fod y sgip ar gyfer Cwm Penmachno rhai oriau'n hwyr yn cyrraedd. Cafodd Eluned McFadden wybod dros y ffôn fod y lori wedi torri i lawr ar y ffordd i Cwm ond mae'n bosib nad oedd trefniadau digonol wedi eu gwneud. Penderfynwyd tynnu sylw'r Cynghorydd Sir at hyn a hefyd nodi bod angen mwy o eglurdeb ynglŷn â'r union amseroedd y bydd y sgipiau yn cyrraedd a gadael.

Aelodaeth o'r Cyngor: Derbyniwyd enwau dau sydd â diddordeb felly penderfynwyd yn unfrydol i gyfethol Ceri Phillips a Dylan Davies.

Materion Ariannol:

Gwnaed penderfyniad y byddai'r praesept ar gyfer 2020-21 yr un fath â 2019-20.

Materion Cynllunio:

Derbyniwyd copi o gais cynllunio ar gyfer gosod hysbysfwrdd ar ochr ffordd y Grenyn ond, gan nad oedd wedi bod yn bosib archwilio'r cais ar-lein, gohiriwyd penderfyniad.

Materion eraill:

Difrod i giât yr Eglwys: Nodwyd bod lori wedi achosi difrod a bod yr heddlu wedi eu hysbysu a bod cofnod ganddynt ar gyfer gwneud cais am iawndal. Penderfynwyd ceisio amcangyfrifon am y gwaith atgyweirio.

Coed Nadolig: Penderfynwyd dilyn y drefn arferol o gael coeden Nadolig i Benmachno ac i Cwm a deëllir fod y clerics eisoes wedi gwneud ymholiadau.

Cŵn yn baeddu: Derbyniwyd sawl cŵn ac adroddiad bod hyn yn achosi problemau mewn sawl man. Penderfynwyd cysylltu â Warden Cŵn Conwy am gyngor a hefyd gofyn am arwyddion i wahardd cŵn o'r cae chwarae.

Dŵr ar y ffordd ger Park Hill: Nodwyd bod hyn wedi achosi problemau eto, ond bod gweithwyr y cyngor wedi bod yno. Penderfynwyd holi ymhellach ac i bwysu, os oes angen, am waith i ddatrys y broblem.